O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 16 (Cy. 9)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Lleiniau Caled) 2011

Gwnaed	*5 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*12 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu ganiatáu traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011.

2. —(1) yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.